# PWYLLGOR CRAFFU
# DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD

**19 EBRILL 2021**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.D. James (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** J.M. Charles, T.A.J. Davies, J.A. Davies, K. Davies, S.J.G. Gilasbey, T.M. Higgins, E. Morgan, B.D.J. Phillips, J.S. Phillips, D. Thomas, A.D.T. Speake ac A. Vaughan Owen

Y Cynghorydd D. Cundy - yn lle'r Cynghorydd P. Edwards.

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd C.A. Campbell, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau a Materion Gwledig;
Y Cynghorydd H.A.L. Evans, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd;
Y Cynghorydd P.M. Hughes, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Diogelu'r Cyhoedd

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd;
R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol;
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel;
S. Pilliner, Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth;
R. Edmunds, Rheolwr Materion Defnyddwyr a Busnes;
K. Harrop, Rheolwr Diogelwch Cymunedol;
A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff;
D.W. John, Rheolwr y Gwasanaethau Gwastraff;
S.E. Watts, Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd;
R. James, Cyfrifydd Grŵp;
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
A. Kenyon, Uwch-swyddog Rheoli Perfformiad;
J. Corner, Swyddog Technegol;
A. Eynon, Prif Gyfieithydd;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Rhith-Gyfarfod: 11:00yb - 1:30yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd P. Edwards.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.
Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

## 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

The Chair advised that no public questions had been received.

At this point in the meeting, the Chair informed the Committee that for various reasons it was necessary to change the order of the remaining business on the agenda and was taken in the order of Item 5, Item 9, Item 4, Item 6, Item 7, Item 8, Item 10, Item 11 and Item 12. However, these minutes reflect the order of business itemised on the agenda for the meeting.

## 4. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2020/21

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a gyflwynwyd gan Bennaeth y Gwasanaethau Ariannol ar adroddiadau ynghylch Monitro'r Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2020/21 ar gyfer y Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd ar gyfer y cyfnod hyd at 31ain Rhagfyr 2020.

Rhoddwyd gwybod ei bod yn cael ei rhagweld y byddai’r gyllideb refeniw oddeutu £486k dros y gyllideb gymeradwy fel y manylir yn Atodiad A ynghlwm wrth yr adroddiad, roedd y gyllideb gyfalaf a atodir yn Atodiad D yr adroddiad yn cynnwys y prif amrywiannau ar gynlluniau cyfalaf, sy'n nodi gwariant net a ragwelir o £10,062k o'i gymharu â chyllideb net weithredol o £11,410k gan roi amrywiant o -£1,348k.

Yn ogystal, adroddwyd mai'r disgwyl yw y byddai £713k o arbedion Rheolaethol yn erbyn targed o £1,176k yn cael ei gyflawni ar ddiwedd y flwyddyn.
At hynny, rhagwelwyd y byddai arbedion polisi o £139k a gyflwynwyd ar gyfer 2020/21 yn cael eu cyflawni.

Ni chodwyd unrhyw ymholiadau na sylwadau mewn perthynas â'r adroddiad hwn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod yr Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw a Chyfalaf yn cael ei dderbyn.**

## 5. ADRODDIAD TERFYNOL GRWP GORCHWYL A GORFFEN -CYNLLUN DIOGELU RHAG CAMFANTEISIO ARIANNOL (FESS) - GWASANAETHAU SAFONAU MASNACH

Cafodd y Pwyllgor adroddiad diwygiedig y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr oedd wedi'i sefydlu ar 10 Mehefin 2019, er mwyn adolygu'r Gwasanaethau Safonau Masnach - Cynllun Diogelu rhag Camfanteisio Ariannol (FESS).

Esboniodd Cadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen fod yr argymhellion a gynhwysir yn yr adroddiad wedi cael eu llunio gan y Grŵp ar ôl ystyried ystod o dystiolaeth dros gyfres o gyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng Gorffennaf 2019 ac Ebrill 2021, fodd bynnag oherwydd y pandemig Covid-19 bu bwlch byr o ran cyfnod yr adolygiad yn ystod 2020.

Cwmpas yr adolygiad oedd gweld a oedd y portffolio o atal troseddau, cefnogi dioddefwyr a gweithgareddau addysg a gyfunwyd o fewn Cynllun Diogelu rhag Camfanteisio Ariannol FESS yn darparu strategaeth effeithiol i helpu i frwydro yn erbyn twyll a hyrwyddo amcanion iechyd a llesiant corfforaethol.

Dywedodd aelod o'r grŵp Gorchwyl a Gorffen fod yr adolygiad wedi bod yn ddiddorol ac yn addysgiadol a chanmolodd y Gwasanaeth Safonau Masnach am yr holl waith amhrisiadwy mewn perthynas â'r fenter FESS.

Ni chodwyd unrhyw ymholiadau na sylwadau.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a'i gyflwyno at sylw'r Bwrdd Gweithredol i'w ystyried.**

**6. CYNLLUN BUSNES ADRANNOL YR AMGYLCHEDD 2021/22**

Aeth y Pwyllgor ati i ystyried Cynllun Busnes Drafft 2021/22 Adran yr Amgylchedd mewn perthynas â'r gwasanaethau hynny o fewn ei faes gorchwyl fel a ganlyn:

- Priffyrdd a Thrafnidiaeth
- Gwasanaethau Gwastraff ac Amgylcheddol
- Gwella Busnes

Cyflwynodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd yr adroddiad gan egluro bod y Cynllun Busnes yn darparu crynodeb o'r camau gweithredu a'r mesurau allweddol sy'n ofynnol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Gorfforaethol ac Amcanion Llesiant y Cyngor ac fe'i cefnogwyd gan gynlluniau adrannol manwl a oedd yn destun adolygiad rheolaidd.

Rhoddwyd gwybod, oherwydd pandemig Coronafeirws COVID-19, fod y cynllun yn gynllun cryno, gan y byddai fel arfer yn cynnwys adran adolygu, a gafodd sylw yn Asesiadau Effaith COVID-19 ar Wasanaethau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu o'r blaen.

Rhoddwyd sylw i'r materion/cwestiynau canlynol wrth drafod yr adroddiad:

- Gofynnwyd am eglurhad am gamau gweithredu a beth fyddai llwyddiant yn ei olygu. Gofynnwyd am y camau gweithredu allweddol a sut yr oedd y mesurau sy'n priodoli'r camau gweithredu yn gysylltiedig?

  Esboniodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd fod y cynlluniau busnes wedi cael eu cyflwyno mewn dull gwahanol eleni oherwydd y pandemig. Cafodd y pandemig effaith ar amseriad arferol datblygiad Cynlluniau Busnes gan fod gofyn i swyddogion ganolbwyntio ar ymateb i'r pandemig. Felly, gwnaed penderfyniad corfforaethol i gyflwyno fersiwn o'r cynllun ar ffurf tabl a oedd yn wahanol i'r hyn roedd y Pwyllgor wedi ei gael yn y blynyddoedd diwethaf a oedd yn cynnwys y naratif i ddarparu cefndir i'r gweithredu allweddol.

  Hefyd, esboniodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ddiben Cynlluniau Busnes gan fod y cynlluniau busnes yn galluogi adrannau i nodi'r meysydd gwaith y byddai'n parhau i'w cyflawni. Roedd hyn yn bwysig i sicrhau y byddai'r cynllun, pe bai arbedion effeithlonrwydd yn cael eu gwneud, yn darparu esboniad ynglŷn â sut y byddai gwasanaethau'n parhau i gael eu darparu. Yn ogystal, defnyddiwyd y cynlluniau fel platfform i nodi dyheadau a chwilio am gyfleoedd newydd.

- Mewn ymateb i sylw a godwyd yn awgrymu bod y Cynllun Busnes yn generig iawn ac y byddai mwy o fanylion ar amserlenni yn fuddiol, pwysleisiodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd fod Cynllun Busnes 2021/22 wedi'i ddatblygu mewn fformat cryno a phe bai gan y Pwyllgor adborth cyffredinol ar y modd yr ysgrifennwyd y Cynlluniau Busnes, byddai angen trafodaethau pellach. Dywedodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ei bod yn croesawu barn y Pwyllgorau o ran datblygu cynlluniau busnes yn y dyfodol, ond o ran y cynllun hwn, byddai'n fuddiol cael gwybodaeth am ba gamau yr hoffai'r Pwyllgor gael rhagor o wybodaeth amdanynt. Rhoddodd y Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar i'r Pwyllgor o ran y datblygiadau i'r sector Trafnidiaeth.

- Yng ngoleuni'r sylwadau a godwyd ynghylch cynnwys y cynlluniau busnes, nododd y Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel fod Cynlluniau Busnes Adrannol yn lefel uchel a'u bod yn derbyn cefnogaeth gan Gynlluniau Busnes Adrannol sy'n darparu rhagor o wybodaeth. Fodd bynnag, roedd wedi nodi'r sylwadau a byddai'n ystyried y camau ymhellach gan sicrhau bod gan bob un fesur cyfatebol er mwyn asesu effaith y camau gweithredu.

- Cyfeiriwyd at y mesurau yn y Cynllun Busnes. Nodwyd bod y mesurau'n defnyddio canrannau trwy'r cynllun a dywedwyd nad yw canrannau fel mesur bob amser yn rhoi'r darlun cywir. Gofynnwyd a oedd hi'n bosibl newid canrannau i rifau. Dywedodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd fod y mesurau wedi'u mynegi'n gorfforaethol gan ddefnyddio dull canrannau, ond cydnabu ei bod yn bwysig deall y rhifau hefyd a chytunodd y gallai canrannau bortreadu darlun gwahanol mewn perthynas â niferoedd isel. Er mwyn darparu mwy o eglurder, nododd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd y byddai'n mynegi'r wybodaeth hon i'r tîm perfformiad i holi a oedd modd rhannu canlyniadau trwy rifau yn ychwanegol at ganrannau.

- Codwyd pryder arall mewn perthynas â'r mesurau, gan gyfeirio'n benodol at ffyrdd gwledig dosbarth B a C. Dywedwyd bod y gwaith ar y ffyrdd hyn wedi cael ei addo ers sawl blwyddyn bellach ond nad oedd wedi'i gwblhau eto. Gofynnwyd sut y gellid gwella'r rhain wrth symud ymlaen a chytunwyd bod angen rhagor o eglurder yn y mesurau. Esboniodd y Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth fod y manylion ar gyflwr ffyrdd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd a'r adroddiad cyflwr ar wahân sy'n darparu adolygiad o'r rhwydwaith o ffyrdd yn Sir Gaerfyrddin a ystyrir gan Aelodau'r Pwyllgor Craffu yn flynyddol. Yn ogystal, mae'r gyllideb sy'n gostwng yn barhaus yn cael effaith ar y gwaith o wella ffyrdd, fodd bynnag, mae'r adran yn parhau i geisio cyllid grant.

- Mewn ymateb i'r sylwadau a godwyd ynghylch y camau gweithredu a'r mesurau, esboniodd yr Uwch-swyddog Rheoli Perfformiad y byddai'r broses adolygu'n cynnwys adroddiad monitro chwarterol a gyflwynir i'r Pwyllgor a fyddai wedyn yn rhan o’r adroddiad Blynyddol.

- Mewn ymateb i sylwadau a godwyd, awgrymodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd y dylai Aelodau'r Pwyllgor ystyried y Cynlluniau Is-adrannol sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth.

- Dywedwyd ei bod yn ymddangos bod dull anghyson rhwng adrannau.

Yng ngoleuni'r sylwadau a godwyd, cynigiodd y Cadeirydd na ddylai'r pwyllgor dderbyn Cynllun Busnes Drafft Adran yr Amgylchedd 2021/22 a cheisio cynnwys gwybodaeth bellach yn y camau a'r mesurau sy'n mynd i'r afael â'r sylwadau a godwyd a bod Cynllun Busnes drafft Adran yr Amgylchedd 2021/22 yn cael ei gyflwyno i'w ystyried yn y cyfarfod nesaf. Eiliwyd y cynnig hwn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL y dylid cynnwys rhagor o wybodaeth yn y camau gweithredu a'r mesurau i fynd i'r afael â'r sylwadau a wnaed ac y dylid cyflwyno Cynllun Busnes Drafft Adran yr Amgylchedd 2021/22 i'r cyfarfod nesaf i'w ystyried.**

## 7. CYNLLUN BUSNES ADRANNOL ADRAN CYMUNEDAU 2021/22

I fod yn gyson â'r sylwadau a godwyd yng Nghofnod 6;

**PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL y dylid cynnwys rhagor o wybodaeth yn y camau gweithredu a'r mesurau abod Cynllun Busnes yr Adran Cymunedau 2021/22 yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf i'w ystyried.**

## 8. CYNLLUN BUSNES ADRANNOL Y PRIF WEITHREDWR 2021/22

I fod yn gyson â'r sylwadau a godwyd yng Nghofnod 6;

**PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL y dylid cynnwys rhagor o wybodaeth yn y camau gweithredu a'r mesurau a bod Cynllun Busnes Adrannol y Prif Weithredwr 2021-22 yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf i'w ystyried.**

## 9. STRATEGAETH CASGLU GWASTRAFF O DY I DY YN Y DYFODOL

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad ar Strategaeth Casglu Gwastraff o Dŷ i Dŷ yn y Dyfodol a gyflwynwyd gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd. Roedd yr adroddiad yn darparu opsiynau a'r llwybr ar gyfer darparu gwasanaethau casglu gwastraff a deunydd ailgylchu o dŷ i dŷ yn y dyfodol.

Roedd yr adroddiad yn darparu gwybodaeth mewn perthynas â'r ystyriaethau, y mesurau, yr opsiynau strategaeth ac yn ceisio barn y Pwyllgor ar yr ystyriaethau gwasanaeth canlynol:

- symud i gasgliadau ailgylchu wythnosol;
- newid i gasgliadau gwastraff gweddilliol cyfyngedig bob tair wythnos;
- casglu gwydr o dŷ i dŷ;
- y dull o gasglu deunydd ailgylchu.

Rhoddwyd gwybod mai un o'r rhesymau dros newid oedd, er bod y model gwasanaeth cyfredol wedi galluogi'r Awdurdod i ragori ar y targed statudol o 64%, fod angen newid pellach i gyflawni'r targed o 70% o 2024/25 a'r targed posibl o 80% erbyn 2030.

Yn ogystal â'r adroddiad, derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad ategol a gyflwynwyd gan y Rheolwr Gwasanaethau Amgylcheddol ar ‘Llunio Dyfodol y Casgliadau Gwastraff yn Sir Gaerfyrddin’. Roedd y cyflwyniad yn darparu gwybodaeth mewn perthynas â'r ystyriaethau ac yn ymdrin â'r canlynol: -

- Perfformiad
- Heriau
- Heriau Gweithredol
- Halogiad
- Polisi
- Tu hwnt i ailgylchu
- Glasbrint Llywodraeth Cymru ar Gasgliadau Gwastraff
- Cerbyd wrth ymyl y palmant
- Opsiynau Gwasanaeth Ailgylchu
- Amlder Ailgylchu
- Canlyniadau a chasgliadau
- Gweithlu ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Nododd y Pwyllgor nad oedd y gwasanaeth bellach yn addas at y diben ac roedd heriau gweithredol yn bod o achos hynny. Yn ogystal, dywedwyd mai Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd oedd yr unig Awdurdod yng Nghymru nad yw'n darparu gwasanaeth ailgylchu sych wythnosol, nac yn casglu gwydr o ymyl y palmant.

Mewn perthynas â'r dull, dull casglu Glasbrint (Kerbsort) oedd yr unig ddull casglu a allai o bosibl sicrhau cymhorthdal cyllido Llywodraeth Cymru.

Rhoddwyd sylw i'r materion/cwestiynau canlynol wrth drafod yr adroddiad:

- Dywedwyd y byddai'r casgliad gwydr arfaethedig newydd wrth ymyl y palmant yn lleihau'r angen am ganolfannau ailgylchu gwydr a oedd yn cael eu defnyddio fwyfwy fel lleoliad ar gyfer tipio anghyfreithlon.

- Mewn ymateb i bryder a godwyd mewn perthynas â'r newid ynghylch casglu cewynnau a gwastraff anymataliaeth bob pythefnos yn lle bob wythnos, eglurodd Rheolwr y Gwasanaethau Gwastraff y cysylltir â phob cleient Cynnyrch Hylendid Amsugnol ac asesu ei anghenion gyda'r potensial i ddarparu biniau olwyn os yw'n angenrheidiol. Adroddwyd y gallai fod 16,000 o gleientiaid Cynnyrch Hylendid Amsugnol ac y byddai cost casgliadau wythnosol yn sylweddol.

- Gofynnwyd, pa ddull oedd yr opsiwn a ffefrir? Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Gwastraff mai mater i'r Pwyllgor a'r Cyngor oedd archwilio a chytuno ar y dull a ffefrir. Fodd bynnag, mewn perthynas â chost, dywedwyd mai dull casglu'r Glasbrint (Kerbsort) oedd yr unig ddull casglu a allai o bosibl sicrhau cymhorthdal cyllido Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, roedd cynnig casglu Glasbrint yn cynnig y budd carbon mwyaf.

- Mewn perthynas â'r gwasanaeth casglu gwydr wrth ymyl y palmant, codwyd pryder y byddai bocsys o wydr a adawyd wrth ymyl y palmant yn annog fandaliaeth. Dywedodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd fod ymyrraeth ar wastraff ar hyn o bryd er gwaethaf y dull a ddefnyddiwyd. Fodd bynnag, roedd angen bod yn effro i ddigwyddiadau o'r fath ac er mwyn rheoli hyn, roedd angen cyfathrebu clir a gweithredu rheolaeth briodol o'r meysydd hynny lle mae fandaliaeth yn digwydd.

- Mewn ymateb i ymholiad a godwyd mewn perthynas â maint y cerbyd casglu Glasbrint Kerbsort, esboniodd y Rheolwr Gwasanaethau Amgylcheddol y byddai cerbydau llai ar gael i wneud casgliadau mewn ardaloedd gwledig i gyd-fynd â'r cerbydau mwy. Mewn ymateb i ymholiad pellach ynghylch addasrwydd y cerbydau bach mewn ardaloedd gwledig i'w defnyddio ar ffyrdd cul, nododd y Rheolwr Gwasanaethau Amgylcheddol fod y defnydd o gerbydau llai mewn ardaloedd cyfyngedig wedi bod yn llwyddiannus mewn Awdurdodau eraill.

- Gwnaed ymholiad ynghylch faint o le oedd yn yr adrannau yn y cerbyd Casgliad Glasbrint a ddefnyddir i gadw deunyddiau ar wahân a beth fyddai'n digwydd pe bai un ohonynt yn llanw cyn y lleill? Roedd y Rheolwr Gwasanaethau Amgylcheddol yn cydnabod fod hyn yn debygol o ddigwydd yn enwedig yn achos cardbord, felly byddai angen gwneud dyluniad trylwyr o'r dull a'i weithrediad cyn dechrau.

- Codwyd pryder, pe bai'r casgliad bagiau du yn cael ei leihau i un yr wythnos, gallai hyn annog cynnydd mewn halogiad. Esboniodd Rheolwr y Gwasanaethau Amgylcheddol mai’r gweithwyr casglu fyddai’n didoli wrth ymyl y palmant i ddechrau,, byddai unrhyw groeshalogi a nodwyd yn cael ei reoli trwy lythyr esboniad at ddeiliad y tŷ gan nodi'r rhesymau dros beidio â chasglu, a byddai’r gwastraff oedd yn peri problem yn cael ei adael yno.

- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch proses ymgynghori, cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Amgylcheddol y byddai proses ymgynghori lawn yn cael ei chynnal gyda'r cyhoedd a'r staff i geisio eu barn.

- O achos bod rhai eiddo yn agos i'w gilydd, dywedwyd y gallai blychau casglu achosi problem o ran lle wrth ymyl y palmant. Esboniodd Rheolwr y Gwasanaethau Amgylcheddol fod yna nifer o opsiynau o ran dylunio cynwysyddion didoli yn ymyl y ffordd. Enghraifft ohonynt fyddai un o arddull troli ac o bosibl cyflwyno pwyntiau codi cymunedol y byddai'r ddau ohonynt ynlleihau’r cynwysyddion gwastraff oedd wedi’u gwasgaru wrth ymyl y palmant.

- Mewn ymateb i bryder a godwyd ynghylch lleihau casgliadau bagiau du, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Gwastraff ac Amgylcheddol fod modd ailgylchu dros 40% o gynnwys gwastraff bagiau du ac os byddai cartrefi yn rheoli ailgylchu gwastraff yn llwyddiannus, dylai casgliad bob 3 wythnos fod yn ddigon.

- Codwyd pryder ynghylch y tebygolrwydd y bydd cynnydd mewn tipio anghyfreithlon yn y sir oherwydd y gostyngiad mewn casgliadau bagiau du. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Amgylcheddol o ran newid gwasanaeth ac i leihau achosion o dipio anghyfreithlon, byddai staff ychwanegol i reoli cyfathrebiadau, ymgysylltu â'r cyhoedd a gorfodi.

- Mewn ymateb i sylw ynghylch lleoli a hyd yr amser y mae gwastraff cŵn/cathod yn cael ei fagio mewn bagiau du cyn ei gasglu, dywedodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd y gallai'r mater hwn ddod yn broblem ac felly byddai'n edrych sut roedd Awdurdodau eraill wedi rheoli'r mater hwn gyda'r bwriad o gynnwys datrysiad priodol yn nyluniad system y dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL y dylai'r Bwrdd Gweithredol barhau i ddatblygu ac ymgynghori ar opsiynau priodol i gyflawni'r targedau statudol a mynd i'r afael â heriau fel y'u cynhwysir yn yr adroddiad.**

## 10. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Nododd y Pwyllgor na chyflwynwyd Cynllun Cyflenwi yn y Dyfodol - Ardal Rheoli Ansawdd Aer(AQMA) a ohiriwyd i gael ei ystyried yn nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 18 Mai 2021.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi nad oedd adroddiad y pwyllgor craffu wedi'i gyflwyno.**

## 11. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Ystyriodd y Pwyllgor y rhestr o eitemau i'w gosod ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod oedd i'w gynnal ar 18 Mai 2021 a rhoddwyd cyfle i'r Aelodau ofyn am unrhyw wybodaeth benodol yr hoffent ei chynnwys yn yr adroddiadau.

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor fod yr adroddiad ar y Siarter Creu Lle i fod i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau ac Adfywio gan ei fod o dan gylch gwaith Cymunedau. Yng ngoleuni hyn, byddai'r adroddiad hwn yn cael ei dynnu o Flaenraglen Waith y pwyllgor hwn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, wedi dileu'r adroddiad Siarter Creu Lle, y dylid nodi'r rhestr o eitemau sydd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 18 Mai 2021.**

## 12. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 5 MAWRTH 2021

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 5 Mawrth 2021 gan eu bod yn gywir.**

____________________________ _____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**